# Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai

Ebrill 2022 - Mawrth 2026

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Grant Cymorth Tai
Housing Support Grant

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Rhagarweiniad** | **4** |
| Pwrpas y Strategaeth | 5 |
| Cyd-destun deddfwriaethol a pholisi | 6 |
| Gweledigaeth ac egwyddorion | 7 |
| **Asesiad o Anghenion** | **9** |
| Data o'r Porth Cymorth Tai | 9 |
| Adrodd ynghylch Canlyniadau Cefnogi Pobl | 9 |
| Ffurflenni Monitro Chwarterol y Grant Cymorth Tai | 10 |
| Ymgynghori gyda Darparwyr Gwasanaeth a Defnyddwyr Gwasanaeth | 10 |
| Data Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 12 |
| Y Gofrestr Tai | 13 |
| **Blaenoriaethau Strategol** | **14** |
| Blaenoriaeth Strategol 1 | 14 |
| Blaenoriaeth Strategol 2 | 15 |
| Blaenoriaeth Strategol 3 | 19 |
| Blaenoriaeth Strategol 4 | 21 |
| Blaenoriaeth Strategol 5 | 22 |
| Blaenoriaeth Strategol 6 | 23 |
| Blaenoriaeth Strategol 7 | 25 |
| Blaenoriaeth Strategol 8 | 26 |
| Blaenoriaeth Strategol 9 | 28 |
| Blaenoriaeth Strategol 10 | 29 |

**Ymgysylltu â Budd-Ddeiliaid** **32**

Adborth Budd-Ddeiliaid 33

**Asesiadau o Effaith** **35**

**Gweithredu, Monitro ac Adolygu** **36**

Gweithio mewn Partneriaeth 36

Ffynonellau Cyllido 36

Monitro, Gweithredu ac Adolygu 37

**Atodiad A - Cynllun Gweithredu** **38**

Blaenoriaeth Strategol 1 38

Blaenoriaeth Strategol 2 38

Blaenoriaeth Strategol 3 39

Blaenoriaeth Strategol 4 40

Blaenoriaeth Strategol 5 40

Blaenoriaeth Strategol 6 41

Blaenoriaeth Strategol 7 42

Blaenoriaeth Strategol 8 42

Blaenoriaeth Strategol 9 43

Blaenoriaeth Strategol 10 43

# Rhagarweiniad

Mae pandemig Covid-19 a'r cyfnodau clo wedi amlygu'r angen am fwy o gefnogaeth ar gyfer aelwydydd digartref, yn arbennig y rhai hynny sy'n cysgu allan yn hirdymor a'r sawl gydag anghenion cymhleth os ydynt am gadw eu tenantiaethau.

Fel rhan o'i ymateb, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau am y dull oedd ei angen i sicrhau bod pobl a oedd yn ddigartref ac a oedd yn cysgu allan, neu mewn perygl o gysgu allan, yn gallu diogelu eu hunain a chydymffurfio â chanllawiau'r Llywodraeth.

Roedd hyn yn cynnwys trefnu bod pobl a oedd yn cysgu allan yn cael eu hailgartrefu'n briodol a dileu angen blaenoriaethol a bwriadoldeb o'r broses asesu digartrefedd.

Wrth symud ymlaen, disgwyliad Llywodraeth Cymru yw na ddychwelir i'r sefyllfa cyn y pandemig.

Y nod yw trawsnewid dulliau cyfan mewn perthynas â darpariaeth digartrefedd a bod y sawl sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref yn profi system sy'n canolbwyntio ar atal gwirioneddol bob dydd; a phan fo hynny'n methu, fel y bydd yn digwydd yn achlysurol, bod digartrefedd yn digwydd am gyfnod byr ac nad yw'n digwydd eto.

Caiff unigolion ac aelwydydd eu cefnogi i ddychwelyd i lety yn gyflym a chânt gefnogaeth ddigonol i sicrhau nad ydynt yn ddigartref eto; gan baratoi aelwydydd i lwyddo, nid i fethu.

Mae Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai gyntaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn nodi sut fydd y Cyngor yn ymateb er mwyn bodloni'r newid cenedlaethol hwn o ran cyfeiriad. Mae wedi'i datblygu trwy ymgynghoriad â budd-ddeiliaid. Mae'n cyfuno dyletswydd statudol y Cyngor i lunio Strategaeth Digartrefedd gyda'r gofynion cynllunio strategol ar gyfer y Grant Cymorth Tai.

Mae'n rhoi un olwg strategol ar ddull y Cyngor o ran digartrefedd, gwasanaethau cymorth tai, swyddogaethau digartrefedd statudol sydd wedi'u hariannu drwy refeniw a gwasanaethau ataliol nad ydynt yn rhai statudol sydd wedi'u hariannu drwy'r Grant Cymorth Tai.

Wrth i ni ysgrifennu'r Strategaeth, rydym wedi cyfeirio at Strategaeth Digartrefedd 2018 - 2022 y Cyngor, Cynllun Darparu Blynyddol y Grant Cymorth Tai 2021 - 22 ac Asesiad o Anghenion y Grant Cymorth Tai, a gynhaliwyd er mwyn nodi gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd a lle mae bylchau yn y ddarpariaeth honno.

Byddwn yn adnewyddu'r Strategaeth hon bob 4 mlynedd a'i hadolygu bob 2 flynedd. Bydd hyn yn sicrhau ei bod yn parhau i gyrraedd nodau'r Cyngor, bod y nodau hyn yn dal i fod yn berthnasol a'i bod yn cefnogi gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o atal digartrefedd a darparu gwasanaeth ailgartrefu cyflym.

## Pwrpas y Strategaeth

Yn ganolbwynt i'r Strategaeth yma y mae gweledigaeth y Cyngor ar gyfer dyfodol preswylwyr Bwrdeistref Sirol Wrecsam, fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor:

> *"..cefnogi'r bobl sy'n byw yma i gyrraedd eu llawn botensial, i lwyddo a chyrraedd safon uchel o les. Byddwn yn arweinydd cymunedol cryf a chynhwysol i helpu i wneud i hyn ddigwydd."*

Rydym yn deall bod mynediad at dŷ o safon dda yn hanfodol er mwyn cyflawni hyn, waeth beth yw'r ddeiliadaeth, felly mae'r Strategaeth hon yn nodi'r prif egwyddorion a blaenoriaethau yr ydym wedi'u nodi er mwyn cyflawni gweledigaeth y Cyngor i fynd i'r afael â digartrefedd a darparu gwasanaethau cefnogi ar gyfer y cyfnod rhwng 2022 a 2026.

Rydym wedi nodi'r egwyddorion a blaenoriaethau hyn drwy ymgynghori gyda budd-ddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth a thrwy ddadansoddi'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cyfnod o lunio ein Hasesiad o Anghenion.

Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth o'r ffynonellau canlynol.:

- Data o'r Porth Cymorth Tai
- Adrodd ynghylch Canlyniadau Cefnogi Pobl
- Ffurflenni Monitro Chwarterol y Grant Cymorth Tai
- Ymgynghori gyda Darparwyr Gwasanaeth a Defnyddwyr Gwasanaeth

Yn sgil hyn, fe ddylent fod yn berthnasol i bob darparwr gwasanaethau digartrefedd a chefnogaeth ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam ac o fudd i'r rhai sy'n eu defnyddio.

Er bod y Strategaeth yn disodli Strategaeth Digartrefedd bresennol y Cyngor, mae'n rhaid iddo barhau i fodloni'r dyletswyddau cyfreithiol yn Neddf Tai (Cymru) 2014. Wrth i ni ysgrifennu'r Strategaeth hon, rydym wedi adolygu'r Strategaeth Digartrefedd a lle y bo'n briodol, rydym wedi cynnwys blaenoriaethau a nodau sydd yn parhau'n berthnasol, er enghraifft:

- Ceisio lleihau digartrefedd ymysg ieuenctid
- Gweithio gyda phartneriaid i leihau achosion o droi allan
- Gweithio mewn partneriaeth i lunio dull integredig a chyfannol i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol digartrefedd
- Canolbwyntio ymdrechion i hyrwyddo ymyrraeth gynnar ac atal; a
- Cheisio sefydlu egwyddorion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ein gwaith, er enghraifft, drwy gefnogi pobl sydd ag anghenion cymhleth drwy ddarparu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, yn hytrach na mynd i'r afael ag anghenion cefnogaeth fesul un.

## Cyd-destun deddfwriaethol a pholisi

Sail Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yw'r ddeddfwriaeth a'r polisïau cenedlaethol canlynol:

- Deddf Tai (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Canllawiau Ymarfer Grant Cymorth Tai
- Deddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010
- Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwystra) (Cymru) 2014
- Cod Canllawiau Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd 2016
- Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion yn yr Ystâd Ddiogel
- Atal Digartrefedd a Hyrwyddo Annibyniaeth: Llwybr Cadarnhaol tuag at Fyd Oedolion
- Gorchymyn Digartrefedd (Addasrwydd Llety) (Cymru) 2015
- Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Ar lefel leol, mae'r strategaeth hon yn cyfrannu at y meysydd gwaith canlynol:

- Cynllun y Cyngor 2020 - 2023 - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Strategaeth Digartrefedd 2018 - 2022 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Strategaeth Tai 2018 - 2023 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Strategaeth Digartrefedd Rhanbarthol Gogledd Cymru 2018 - 22
- Polisi Dyrannu Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (diwygiwyd mis Chwefror 2021)
- Cynllun Gweithredu Grant Cymorth Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam 2021
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 2024
- Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru - Prosbectws Awdurdod Lleol

## Gweledigaeth ac egwyddorion

Mae gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Bwrdeistref Sirol Wrecsam sydd wedi'i chynnwys yng Nghynllun y Cyngor yn nodi:

*"Ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yw i'r holl bobl sy'n byw yma gael cefnogaeth i gyrraedd eu llawn botensial, i lwyddo a chyrraedd safon uchel o les."*

Bydd gweledigaeth y Cyngor ar gyfer atal digartrefedd a gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai yn cyfrannu at y weledigaeth hon. Sef:

*"Gweithio gyda phartneriaid yn y Fwrdeistref Sirol i atal digartrefedd. Ble mae'n digwydd, byddwn yn anelu i'w gadw'n gryno a sicrhau bod lefelau priodol o gefnogaeth yn cael eu darparu i sicrhau, ble bynnag bo'n bosibl, nad yw'n cael ei brofi eto."*

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, rydym wedi nodi'r prif egwyddorion canlynol:

- Gweithio mewn partneriaeth i roi'r gefnogaeth angenrheidiol i helpu'r sawl ag anghenion cymhleth, er enghraifft, cyn-droseddwyr a phobl â phroblemau iechyd meddwl neu gamddefnyddio sylweddau, i gael mynediad at dai priodol a chadw eu tenantiaeth.
- Datblygu modelau tai arloesol, fel ailgartrefu cyflym i sicrhau bod y cyfnod mae aelwydydd yn ei dreulio mewn llety â chymorth neu dros dro yn fyr.
- Sicrhau bod yr holl asiantaethau yn deall y rôl sy'n rhaid iddynt ei chwarae i atal digartrefedd a deall yr angen i gymryd rhan mewn gwaith partneriaeth.
- Gweithio'n lleol ac yn rhanbarthol i ddatblygu cysylltiadau agosach gyda Gwasanaethau Iechyd, yn enwedig Gwasanaeth Iechyd Meddwl, a mynd i'r afael â bylchau a nodwyd mewn darpariaeth.
- Anelu i ymgysylltu â phobl i ddatblygu dull ataliol ar gyfer digartrefedd.
- Gwella cydweithio gyda chydweithwyr mewn Gwasanaethau Landlordiaid, sefydliadau'r Sector Statudol a'r Trydydd Sector fel bod modd nodi dangosyddion cynnar bod unigolyn yn profi anhawster, a darparu cymorth priodol.

Rydym wedi seilio'r egwyddorion hyn ar amcanion lles y Cyngor sydd yng Nghynllun y Cyngor.

Maent yn cynnwys:

- Ystyried yr hirdymor er mwyn sicrhau nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain;
- Ymgymryd â dulliau integredig fel ein bod yn edrych ar sut mae ein blaenoriaethau'n effeithio ar ein hamcanion lles eraill, yn ogystal â rhai cyrff cyhoeddus eraill;
- Cynnwys pobl sydd â diddordeb i gwrdd â'r amcanion lles, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal a wasanaethir gan y corff;
- Gweithio gydag eraill (yn cynnwys pobl eraill o fewn y Cyngor) mewn ffordd gydweithredol er mwyn darganfod atebion a rennir i'r amcanion lles; a
- Deall yr achosion sydd wrth wraidd problemau er mwyn eu rhwystro rhag digwydd neu waethygu;
- Hyrwyddo'r iaith Gymraeg;
- Blaenoriaethu pobl ddiamddiffyn

Byddwn yn cydweithio â phartneriaid i ddarparu gwasanaethau integredig sy'n mynd i'r afael â digartrefedd; hybu'r farn nad yw brics a morter yn unig yn datrys perygl i unigolyn fod yn ddigartref neu'n ddiamddiffyn ac angen cefnogaeth a bod gan bob asiantaeth ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam rôl i'w chwarae i fynd i'r afael â digartrefedd.

Rydym wedi defnyddio'r trefniadau cydweithio sydd eisoes ar waith yn Wrecsam i ddatblygu'r egwyddorion a'r blaenoriaethau a nodir yn y Strategaeth a byddwn yn ceisio adeiladu ar y rhain fel bod ein gwasanaethau yn cynrychioli'r farn a'r problemau fydd partneriaid yn eu hwynebu wrth i'n gwaith ddatblygu, a mynd i'r afael â nhw.

# Asesiad o Anghenion

Mae Canllawiau Grant Cymorth Tai Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gynnal asesiad llawn o anghenion yn yr ardal leol bob pedair blynedd.

Rydym wedi defnyddio'r Asesiad o Anghenion cyntaf i lywio'r modd y byddwn yn darparu gwasanaethau.

Rydym hefyd wedi defnyddio canfyddiadau'r Asesiad o Anghenion i lywio'r egwyddorion a'r blaenoriaethau trosfwaol yn y Strategaeth hon a'r dull y byddwn yn ei ddilyn i atal digartrefedd.

Roedd yr Asesiad o Anghenion wedi'i lywio gan ganfyddiadau o'r ffynonellau canlynol.

## Data o'r Porth Cymorth Tai

Cynhaliwyd dadansoddiad o 3068 o atgyfeiriadau. Dangosodd hyn fod 1136 o bobl, sef mwy na thraean o'r holl bobl a atgyfeiriwyd, wedi dweud mai eu prif angen oedd naill ai digartrefedd neu ddigartrefedd posibl. Dywedodd 52 o bobl eraill ei fod yn angen perthnasol o ran cymorth.

Er nad yw hyn yn rhoi arwydd o'r rhesymau pam oedd pobl yn dod yn ddigartref, neu mewn perygl o ddod yn ddigartref, mae'n dangos na ellir datrys nac atal digartrefedd i rai pobl heb rhyw fath o ymyrraeth o ran cymorth.

## Adrodd ynghylch Canlyniadau Cefnogi Pobl

Pan fydd unigolyn yn dechrau cymorth a gynlluniwyd gyda darparwr, gofynnir iddynt nodi eu prif anghenion a'u hanghenion eilaidd a thrydyddol. Roedd gwybodaeth a gasglwyd o ffurflenni canlyniadau cymorth rhwng mis Ionawr 2018 a mis Mehefin 2020 yn dangos mai'r prif anghenion cymorth mwyaf cyffredin oedd: pobl ifanc 16 - 24 oed gydag anghenion cymorth a phobl hŷn, 55 oed a hŷn gydag angen cymorth a phroblemau iechyd meddwl.

## Ffurflenni Monitro Chwarterol y Grant Cymorth Tai

Mae darparwyr gwasanaeth y Grant Cymorth Tai yn cyflwyno adroddiadau monitro chwarterol i'r Cyngor. Mae'n rhaid i ddarparwyr llety â chymorth ddarparu gwybodaeth am nifer y bobl mewn unrhyw brosiect tai â chymorth sy'n cael eu hatal rhag symud ymlaen. Unigolion sy'n barod i symud ymlaen o lety â chymorth yw'r rhain ond nad ydynt yn gallu gwneud hynny oherwydd nad oes digon o lety addas ar gael.

Er bod niferoedd yn amrywio o'r naill chwarter i'r llall, ers 2016 - 17, mae'r duedd gyffredinol yn dangos cynnydd nodedig o ran nifer y bobl sy'n cael eu hatal rhag symud allan o dai â chymorth.

## Ymgynghori gyda Darparwyr Gwasanaeth a Defnyddwyr Gwasanaeth

Er ei bod yn amhosibl cynnal cyfarfodydd wyneb i wyneb gyda defnyddwyr gwasanaeth a budd-ddeiliaid oherwydd cyfyngiadau yn sgil Covid-19, dosbarthwyd holiaduron iddynt. Ymatebodd cyfanswm o 162 o ddefnyddwyr gwasanaeth a 23 o ddarparwyr gwasanaeth.

### Ymatebion gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth

Nid yw'n syndod fod cyfran fawr o'r bylchau o ran gwasanaeth, neu'r gwelliannau a awgrymwyd, yn ymwneud â newidiadau a wnaed i ddarpariaeth gwasanaeth i ymateb i bandemig Covid-19 a'r cyfnodau clo.

Y themâu mwyaf cyffredin oedd:

- Teimlo'n ynysig oherwydd bod cyfarfodydd wyneb i wyneb ac ymweliadau cartref wedi'u hatal.
- Gorbryder wrth ddefnyddio technoleg, yn enwedig ymhlith rhai ag anableddau a rhai a fyddai wedi elwa o gymorth i ddefnyddio technoleg.
- Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryderon am fod eu cyfnod o gymorth wedi'i gyfyngu i ddwy flynedd.
- Pryderon o ran y gallu i sicrhau llety symud ymlaen priodol.

## Ymatebion gan Ddarparwyr Gwasanaeth

Y themâu mwyaf cyffredin a nodwyd gan fudd-ddeiliaid oedd:

- Diffyg llety symud ymlaen fforddiadwy ac addas, yn enwedig llety llai un ystafell wely.
- Rhwystrau i gael mynediad at lety rhent preifat, gan gynnwys fforddiadwyedd ac amharodrwydd landlordiaid preifat i dderbyn pobl sy'n hawlio budd-dal tai.
- Landlordiaid yn amharod i dderbyn tenantiaid heb warantwyr.
- Cynnydd o ran defnyddwyr gwasanaeth ag anghenion cymhleth neu sy'n cyd-ddigwydd.
- Cymorth a llety priodol i bobl â phroblemau iechyd meddwl.
- Mynediad mwy amserol at wasanaethau iechyd meddwl.
- Cynnydd o ran faint o lety â chymorth sydd ar gael.
- Mwy o gymorth i bobl ag anghenion iechyd meddwl lefel isel.
- Darparu gwasanaethau gofal estynedig, sy'n ymateb i anghenion unigolyn, yn hytrach na bod yr unigolyn yn gorfod cyd-fynd â nodau'r gwasanaethau.
- Mwy o lety â chymorth i bobl ifanc a rhai sy'n gadael gofal.
- Bod â llety camu i lawr i bontio rhwng tai â chymorth a thai annibynnol.
- Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau.
- Gwasanaethau Cam-drin Domestig.
- Cymorth a chysylltiadau priodol ag addysg, cyflogaeth a chyfleoedd gwirfoddoli.

## Data Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

### Aelwydydd mewn Llety Dros Dro

Roedd data ar gyfer y 3 mlynedd diwethaf yn dangos bod nifer yr aelwydydd mewn llety dros dro wedi cynyddu o 119 i 246. Er bod nifer y teuluoedd yn dal i fod yn is na nifer y bobl sengl, mae'r cynnydd o 52 aelwyd yn 2018/19, o'i gymharu â 82 yn 2020/21, yn cynrychioli cynnydd cyffredinol o 57%.

O gymharu, mae'r cynnydd o ran nifer y bobl sengl, o 64 aelwyd yn 2018/19 i 146 yn 2020/21, yn cynrychioli cynnydd cyffredinol o 128%.

Mae'r set data hwn yn dangos bod y pwysau mwyaf yn dal i fod ar lety i bobl sengl, er bod y galw am lety i deuluoedd wedi cynyddu. Nid yw'r cyflenwad o lety Cyngor i bobl sengl wedi addasu eto i fodloni demograffeg newidiol o ran maint teuluoedd a chynnydd o ran nifer yr aelwydydd person sengl. Mae hyn yn golygu ei bod yn anghymesur o anodd darparu llety Cyngor i bobl sengl.

Yn ogystal, mae'r Sector Rhentu Preifat yn draddodiadol wedi bod yn erbyn derbyn tenantiaid a allai fod ag anghenion cymorth neu sy'n hawlio budd-daliadau. Yn anecdotaidd, mae'r cynnydd diweddar o ran prisiau tai a newidiadau i'r drefn o ran treth ar gyfer landlordiaid y sector preifat wedi arwain ar roi eiddo ar y farchnad i'w gwerthu.

### Aelwydydd Sydd mewn Llety Dros Dro

| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 |
|---|---|---|---|
| **Teuluoedd** | 52 | 53 | 82 |
| **Poble Sengl** | 64 | 69 | 146 |
| **Math Arall o Deulu** | 3 | 6 | 18 |
| **Cyfanswm Nifer yr Aelwydydd** | 119 | 128 | 246 |

## Y Gofrestr Tai

Yn ystod yr un cyfnod, bu cynnydd amlwg o ran nifer yr ymgeiswyr sy'n cofrestru ar gyfer llety Cyngor.

Rhwng mis Mehefin 2019 a mis Mehefin 2021, mae nifer yr ymgeiswyr sydd wedi cofrestru ar y Gofrestr Dai wedi cynyddu o 1,951 i 2,846. Mae hyn yn gynnydd o 46% yn ystod cyfnod o ddwy flynedd.

Mae'r Gofrestr Dai wedi ei hisrannu'n Rhestr Aros a Rhestr Drosglwyddo. Mae'r Rhestr Aros yn cyfeirio at rai nad ydynt yn denantiaid Cyngor ar hyn o bryd ac sy'n gwneud cais am lety Cyngor. Mae'r Rhestr Drosglwyddo yn cyfeirio at rai sy'n denantiaid Cyngor ar hyn o bryd ac sy'n gwneud cais i symud i lety Cyngor amgen addas.

Mae nifer yr ymgeiswyr ar y Rhestr Drosglwyddo wedi cynyddu o 599 ym mis Mehefin 2019 i 812 ym mis Mehefin 2021. Roedd hwn yn gynnydd o 35%. Yn ystod yr un cyfnod, mae nifer yr ymgeiswyr ar y Rhestr Aros wedi cynyddu o 1,352 ym mis Mehefin 2019 i 2,034 ym mis Mehefin 2021. Mae hyn yn golygu cynnydd o 50%.

Gan fod gofyn i ymgeiswyr am dai adnewyddu eu cais bob 6 mis, gellir bod yn rhesymol ffyddiog bod y ffigurau hyn yn adlewyrchu'r angen presennol am dai yn y Fwrdeistref Sirol.

Gellid priodoli'r cynnydd hwn o ran niferoedd i effaith pandemig Covid-19, wrth i gyllid aelwydydd gael ei effeithio gan golli swyddi, cyfnodau ffyrlo a'r canfyddiad fod tenantiaeth y Cyngor yn fwy fforddiadwy a diogel o'i gymharu â deiliadaethau eraill.

### Niferoedd sydd wedi'u Cofresturu ar gyfer Tai Cyngor

| | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Nifer yr Ymgeiswr** | 1951 | 2122 | 2846 |
| **Rhestr Aros** | 1352 | 1444 | 2034 |
| **Rhestr Drosglwyddo** | 599 | 678 | 812 |

# Blaenoriaethau Strategol

Er mwyn cyflawni ein hegwyddorion trosfwaol a diwallu'r anghenion a nodir yn yr Asesiad o Anghenion, rydym wedi nodi cyfres o flaenoriaethau strategol. Gweler Atodiad A - Cynllun Gweithredu i gael rhagor o fanylion.

## Blaenoriaeth Strategol 1

**Ail-ddylunio'r gwasanaeth Dewisiadau Tai gan ystyried y flaenoriaeth leol a rhanbarthol sy'n dod i'r amlwg yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru (LlC) a sicrhau bod atal wedi'i dargedu wrth wraidd pob gwasanaeth statudol a gwasanaeth a gomisiynir.**

Er mwyn bodloni'r heriau yn y dyfodol o ran darparu gwasanaethau ac anghenion newidiol gwasanaethau, mae'n rhaid i'r gwasanaeth Dewisiadau Tai fod yn ymatebol, gallu delio â'r cyhoedd mewn amrywiaeth o ffyrdd a bod â systemau gweithio effeithiol ar waith a all gefnogi gwahanol ffyrdd o weithio.

Er mwyn cyflawni'r flaenoriaeth hon, byddwn yn anelu i:

- Ddatblygu Gwasanaeth Dewisiadau Tai o ansawdd uchel, hygyrch, ac sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid
- Sicrhau bod yr adnoddau cywir yn y mannau cywir
- Gwella hygyrchedd y gwasanaeth trwy ddarparu cymorthfeydd estyn allan, cyngor ar-lein a dros y ffôn, ac archwilio cyfleoedd pellach ar gyfer darpariaeth gwasanaeth trwy ddefnyddio technoleg
- Mabwysiadu'r argymhellion sydd yn Adroddiad 'Ar Ei Liwt Ei Hun' Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus am Adolygiad Digartrefedd a
- Gweithio gyda phartneriaid y Grŵp Llywio Digartrefedd i sicrhau nad yw blaenoriaethau'n gwrthdaro.

## Blaenoriaeth Strategol 2

**Gwella gwasanaethau cymorth sy'n seiliedig ar lety, gan ddilyn dull integredig sy'n diwallu anghenion pobl ag anghenion niferus a chymhleth, gan gynnwys anghenion iechyd meddwl.**

Trwy'r Asesiad o Anghenion a thrwy ystyried adborth budd-ddeiliaid, rydym wedi nodi bod bylchau o ran darpariaeth gwasanaeth i'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl ac anghenion cymhleth neu ddiagnosis deuol. Gall hyn arwain at ddirywiad iechyd wrth i bobl aros i gael mynediad at wasanaethau priodol, neu fethiant tenantiaeth, a all arwain at ddigartrefedd.

Yn draddodiadol, mae gwasanaethau cymorth wedi canolbwyntio ar fater penodol, ond mewn gwirionedd, gall unigolyn fod yn ddigartref oherwydd amrywiaeth o faterion cysylltiedig, er enghraifft, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad anhrefnus neu wrthgymdeithasol.

Gall methu cyfleoedd i fynd i'r afael ag anghenion cymhleth mewn modd cyfannol arwain at broblemau parhaus a rhwystrau wrth ailgartrefu.

Mae nifer yr atgyfeiriadau i'r porth lle nodwyd iechyd meddwl fel prif angen cymorth, angen cymorth eilaidd neu drydyddol yn dangos bod angen cymorth ar nifer o bobl o hyd er mwyn ymdopi â phroblemau iechyd meddwl. Mae'r ffaith nad prif angen cymorth yw hyn yn unig i lawer o bobl hefyd yn dangos bod pobl sy'n cael problemau â'u hiechyd meddwl angen mathau eraill o gymorth hefyd a bod angen cael mynediad atynt er mwyn cynnal tenantiaeth a chreu cartref i'w hunain.

## Atgyfeiriadau i’r Porth lle nodwyd bod angen cymorth iechyd meddwl

### Hydref 2020 i Mawrth 2021

- Cyfanswm o 642 o atgyfeiriadau
- 124 prif angen
- 67 angen eilaidd
- 8 angen trydyddol

### Ebrill i Medi 2021

- Cyfanswm o 767 o atgyfeiriadau
- 147 prif angen
- 116 angen eilaidd
- 19 angen trydyddol

Er mwyn cyflawni’r flaenoriaeth hon, byddwn yn anelu i:

- Weithio gyda phartneriaid i ddatblygu gwasanaethau nad ydynt yn canolbwyntio ar un angen neu ganlyniad penodol.
- Defnyddio’r data sydd ar gael a phrofiadau partneriaid i ddeall lle mae anghenion yn gorgyffwrdd a lle bydd angen i wasanaethau fod yn hyblyg er mwyn diwallu’r anghenion hyn.
- Ymgysylltu â phartneriaid yn Llywodraeth Cymru i archwilio’r posibilrwydd fod gwasanaethau cymorth ar gael am fwy na 2 flynedd er mwyn diwallu anghenion pobl ag anghenion cymhleth.

## Enghraifft Arfer Da - Canolfan Glanrafon

Daeth y dyn i Brosiect Glanrafon yn syth o'r ysbyty ar ôl cael ei anfon i'r ysbyty meddwl am 10 wythnos dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Tra'r oedd yn cael triniaeth, cafodd ddiagnosis o anhwylder deubegynol a hypomania. Bu'n defnyddio ein gwasanaethau mewn anghrediniaeth ac roedd yn teimlo'n ddryslyd iawn.

I ddechrau, roedd Tîm Triniaeth yn y Cartref Wrecsam yn ymweld ag ef bob dydd gan ei fonitro'n agos a pharhau â'i driniaeth. Dros yr wythnosau nesaf, cynyddodd hyder y dyn a bu'n ymgysylltu'n dda iawn gyda'r staff. Dywedodd ei fod yn teimlo fel ei fod yn byw mewn byd ffantasi am yr ychydig wythnosau cyntaf wrth geisio gwneud synnwyr o'r hyn a oedd wedi digwydd. Fodd bynnag, dywedodd fod Glanrafon yn teimlo fel swigen gefnogaeth yn y dyddiau cynnar wrth iddo geisio deall sut y cyrhaeddodd yma.

Mae ei Uwch Weithiwr Cefnogi yn cadarnhau: Mae'r dyn wedi bod yn wych i weithio gydag ef - yn bennaf oherwydd ei fod yn ymddiried yn ein staff, nid oes arno ofn gofyn am help ac mae wedi bod yn ymgysylltu'n dda iawn trwy gydol yr amser. Mae'r dyn wedi bod yn bositif ac optimistaidd ac mae wedi manteisio ar bopeth sydd ar gael, e.e. y Gwasanaethau Cwnsela Reflections a'r gefnogaeth iechyd meddwl sydd ar gael. Mae wedi bod i bob un o'i sesiynau cefnogaeth wythnosol yn ddi-ffael.

Mae'r dyn wedi profi y bydd yn denant gwych trwy dalu ei dâl gwasanaeth yn brydlon (pum wythnos o flaen llaw fel arfer) ac mae wedi darparu ei holl waith ymchwil eiddo i'w Swyddog Tai, fel y gofynnwyd. Mae'r pethau hyn mor bwysig ac mae'n glod i'r dyn ei fod wedi gwneud popeth y gofynnwyd iddo ei wneud tra mae wedi bod yma. Fe gofrestrodd ar gynllun mentora WISE hefyd a gaiff ei redeg trwy The Wallich i helpu i feithrin hyder, sgiliau cyflogaeth a hunan-gred, yn barod at pan fydd am ddychwelyd i'r gweithle.

## Enghraifft Arfer Da - Ymgysylltu â phobl sydd ag anghenion cymhleth - Llety Dros Dro - Grove House.

Daeth atgyfeiriad i law trwy'r Porth ganol fis Mawrth. Cysylltwyd â'r cleient a threfnwyd apwyntiad i gwrdd yn Grove House. Wrth gyrraedd, dywedwyd wrth y Gweithiwr Cyswllt fod y dyn wedi mynd allan, felly ffoniodd y Gweithiwr Cyswllt ef. Dywedodd ei fod wedi anghofion am yr apwyntiad a drefnwyd. Digwyddodd hyn yn y ddau apwyntiad nesaf a drefnwyd. Fodd bynnag, roedd y Gweithiwr Cyswllt yn adnabod y dyn hwn o swydd flaenorol ac roedd yn ymwybodol y byddai'n anodd ymgysylltu ag ef o bosibl. Daliodd y Gweithiwr Cyswllt ati i'w ffonio a dechreuodd ymgysylltu a mynychu apwyntiadau a drefnwyd.

Roedd hyn yn galluogi cynnal asesiad cynhwysfawr o anghenion canfyddedig y dyn, a chytunwyd ar gynllun gofal a chynllun gweithredu ar gyfer pob sesiwn cefnogi. Trwy drafodaeth a chefnogaeth gan ei Weithiwr Cyswllt, trwy apwyntiadau ddwywaith yr wythnos i dechrau, dechreuodd y dyn wneud newidiadau cadarnhaol i'w ffordd o fyw a'i ddewisiadau. Roedd y newidiadau cadarnhaol a wnaeth yn sylweddol ac maent wedi gwella ansawdd ei fywyd yn fawr, a'i ragolygon ar gyfer y dyfodol. Roeddent yn cynnwys: -

- Lleihad sylweddol o ran defnyddio cyffuriau ac alcohol, datblygu strategaethau i osgoi defnyddio ar ddiwrnod cyflog a chysylltu â defnyddwyr cyffuriau eraill.
- Cynnydd o ran hyder a hunan-barch wrth ddysgu sut i ddelio â gwrthdaro heb droi at ymddygiad treisgar ac ymosodol gyda phreswylwyr eraill a staff.
- Llwyddo i fynychu a chwblhau 3 sesiwn ar wahân o'r 'Rhaglen Barod am Denantiaeth' yn Grove House.
- Llwyddodd ymarfer cyllidebu i'w alluogi i gynllunio i arbed arian bob pythefnos yn barod i symud ymlaen a thalu ei daliadau gwasanaeth yn brydlon.
- Gallu cyfathrebu'n effeithiol gan osgoi gwrthdaro â'i gyn-bartner o ran cyswllt a gofal ei ddau blentyn bach.
- Gallu cymodi ac ail-feithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda'i deulu, sy'n ei gefnogi bellach.
- Trwy ymgysylltu â Tŷ Derbyn, mae wedi addasu i'w drefn o ran meddyginiaeth, gan gymryd ei feddyginiaeth a ragnodwyd a mynychu apwyntiadau bob 6 wythnos.
- Wedi symud i mewn i'w eiddo ei hun, trefnu cynlluniau cyfleustodau a chynlluniau talu, talu treth ystafelloedd gwely yn brydlon.
- Gallu gofalu am ei ddau blentyn bach ar benwythnosau, mwynhau ffordd o fyw, diet a threfn ffitrwydd mwy iach.

Ar ddiwedd mis Medi, bu'r Gweithiwr Cyswllt a'r cleient yn edrych ar ei gynllun gofal eto, gan drafod pob cam gweithredu a gymerwyd hyd yma ac amlygu ei gyflawniadau. Fe gytunodd y ddau bod cefnogaeth y Gwasanaeth Cyswllt yn dod i ben. Dywedodd y cleient ei fod yn teimlo ei fod yn gallu rheoli a chynnal ei denantiaeth yn llwyddiannus. Dywedodd hefyd ei fod yn credu bod ganddo'r sylfaen wybodaeth a'r sgiliau gofynnol, ac yn bwysicach, yr hyder i fyw yn ddiogel ac annibynnol.

## Blaenoriaeth Strategol 3

**Mabwysiadu dull ymyrraeth gynnar o ran delio â digartrefedd ymhlith ieuenctid a'u galluogi i gael mynediad at lety addas.**

Heb ddarpariaeth cymorth priodol, gall llawer o bobl ifanc ei chael yn anodd pontio i fyw yn annibynnol. Gall hyn arwain at denantiaethau wedi methu a phobl ifanc yn datgan eu bod yn ddigartref heb fod angen.

Mae nifer yr atgyfeiriadau i'r porth ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 17 a 18 a 25 oed yn ystod dau chwarter olaf 2020 - 2021 a dau chwarter cyntaf 2021 - 2022 yn dangos bod mwy nag 20% o bob atgyfeiriad a gafwyd yn amlygu angen am gymorth oherwydd bod yr unigolyn yn 25 oed neu iau. Mae hyn yn amlygu'r angen i ddefnyddio'r holl wasanaethau atal sydd ar gael a cheisio ymgysylltu â phobl ifanc cyn gynted ag sy'n bosibl fel eu bod yn ymwybodol o'r sgiliau a'r adnoddau sydd eu hangen i fyw yn annibynnol.

Byddwn ni'n parhau i weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn y Gwasanaethau Plant a'r Tîm Gadael Gofal i adeiladu ar lwyddiannau dechreuol a gyflawnwyd wrth gynhyrchu'r Llwybr Llety i Rai sy'n Gadael Gofal. Bydd cydweithio pellach yn canolbwyntio ar ddatblygu mwy o ddewisiadau o ran llety a chymorth i bobl ifanc, gan gynnwys rhai sy'n gadael gofal. Fe fydd yn ceisio lleihau'r risg o denantiaethau'n methu a chyflawni argymhellion Cyd-grŵp Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai Llywodraeth Cymru, i atal plant sydd wedi cael profiad o'r system ofal rhag bod yn ddigartref.

### Atgyfeiriadau i'r Porth - Pan fo'r unigolyn oedd angen cymorth rhwng 16 a 25 oed

Mis Hydref 2020 i fis Mawrth 2021

- Cyfanswm o 642 o atgyfeiriadau
- Rhwng 16 a 17 oed - 3 atgyfeiriad
- Rhwng 18 a 25 oed - 140 atgyfeiriad

Mis Ebrill i fis Medi 2021

- Cyfanswm o 767 o atgyfeiriadau
- Rhwng 16 a 17 oed - 9 atgyfeiriad
- Rhwng 18 a 25 oed - 162 atgyfeiriad

Er mwyn cyflawni'r flaenoriaeth hon, byddwn yn anelu i:

- Wneud defnydd llawn o wasanaethau cyfryngu er mwyn atal perthnasoedd teuluol rhag methu.
- Sefydlu cysylltiadau gydag ysgolion lleol er mwyn hyrwyddo'r sgiliau angenrheidiol sydd eu hangen er mwyn byw yn annibynnol, gan gynnwys sgiliau cyllidebu.
- Gofalu bod Tenantiaethau Dewisiadau Tai, Gofal Cymdeithasol a Thai yn sicrhau bod atgyfeiriadau am gymorth yn amserol a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu.
- Sicrhau bod y Porth Cymorth Tai yn gweithio gyda phartneriaid i nodi llety a chymorth priodol a hyrwyddo rhannu gwybodaeth a chydweithio.

## Blaenoriaeth Strategol 4

**Gweithio gyda phartneriaid i archwilio pa ddewisiadau tai addas sydd ar gael i'r rhai sy'n gadael yr Ystâd Ddiogel.**

Nododd yr Asesiad o Anghenion Grant Cymorth Tai fod cyfran o denantiaethau'r Cyngor wedi methu oherwydd bod y tenant wedi'i gadw yn y ddalfa. Mae hyn yn arwain at berygl o ddigartrefedd wrth gael eu rhyddhau a'r posibilrwydd o aildroseddu os nad yw'r cymorth priodol ar waith.

Mae gwybodaeth o'r Porth yn dangos bod 10% ar gyfartaledd o atgyfeiriadau am gymorth yn ymwneud â phroblemau o ran cyfiawnder troseddol, sy'n cynnwys rhyddhau o'r carchar. Mae hefyd yn dangos bod gan nifer o'r rhai a gaiff eu hatgyfeirio anghenion cymorth ychwanegol, sy'n atgyfnerthu'r ffaith bod risg na fydd pobl yn gallu rheoli tenantiaeth ac y byddant yn ddigartref eto, os yw cymorth yn canolbwyntio ar un angen yn unig.

Rydym yn dechrau gweithio gyda Gwasanaethau Carchar fel bod staff Dewisiadau Tai yn cael yr holl ddogfennau perthnasol, gan gynnwys asesiadau risg, cyn i unigolyn gael ei ryddhau. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i:

- nodi a deall anghenion y rhai sy'n gadael yr Ystâd Ddiogel yn well
- gweithio mewn partneriaeth â Charchar Ei Fawrhydi Berwyn, y Tîm Prawf a'r Tîm Adsefydlu er mwyn ceisio cynyddu'r cyflenwad o dai â chymorth addas i bobl sy'n gadael carchar
- gweithio gyda sefydliadau partner i ganfod y modelau llety gorau i bobl sy'n gadael carchar a;
- bod yn bartner mewn trafodaethau â Charchar Ei Fawrhydi Berwyn a sefydliadau partner er mwyn datblygu strategaeth i'r bobl sy'n gadael carchar.

### Atgyfeiriadau i'r Porth - Lle cafodd materion cyfiawnder troseddol/unigolyn sy'n gadael carchar ei nodi fel angen cymorth.

Hydref 2020 i Mawrth 2021

- Cyfanswm o 642 o atgyfeiriadau
- 54 prif angen, 21 angen eilaidd
- 3 angen trydyddol

Ebrill i Medi 2021

- Cyfanswm o 767 o atgyfeiriadau
- 48 prif angen, 21 angen eilaidd
- 8 angen trydyddol

## Blaenoriaeth Strategol 5

**Byddwn yn datblygu modelau tai arloesol er mwyn cynnig amrywiaeth o ddewisiadau tai, fel ailgartrefu cyflym a thai yn gyntaf er mwyn sicrhau bod y cyfnod y bydd aelwydydd yn ei dreulio mewn llety dros dro neu lety â chymorth yn fyr.**

Er mwyn bodloni disgwyliad Llywodraeth Cymru y dylai digartrefedd fod yn fyr ac na ddylai ddigwydd eto, byddwn yn ailgartrefu pobl ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref cyn gynted ag sy'n bosibl. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli bod tenantiaeth lwyddiannus yn golygu mwy na rhoi eiddo i unigolyn, felly byddwn yn gweithio gyda'r holl asiantaethau perthnasol i roi'r cymorth priodol sydd ei angen ar waith er mwyn sicrhau bod tenantiaethau yn gynaliadwy.

Er mwyn helpu i gyflawni'r nod hwn byddwn yn:

- adolygu Polisi Dyrannu'r Cyngor yn ystod oes y cynllun i sicrhau ein bod yn defnyddio stoc tai yn y ffordd orau a'i fod yn cyfrannu at nodau'r Strategaeth hon;
- cynyddu'r cyflenwad o lety symud ymlaen addas i'r rhai sy'n barod i adael tai â chymorth;
- ceisio gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i sicrhau nad yw pobl yn cael eu hailgartrefu heb gymorth estynedig priodol ar unwaith. Bydd hyn yn atal tenantiaethau rhag methu a sicrhau bod gan gymunedau farn gadarnhaol am ailgartrefu cyflym; a
- gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo nodau a phwysigrwydd y strategaeth, fel bod pob sefydliad yn neilltuo'r adnoddau priodol i sicrhau ei lwyddiant.

## Blaenoriaeth Strategol 6

**Cynnal yr Asiantaeth Gosod Tai Leol i gynyddu cyflenwad ac amrywiaeth llety ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.**

Mae data a gasglwyd o'r Asesiad o Anghenion Grant Cymorth Tai a chofrestr dai y Cyngor yn dangos nad yw proffiliau stoc dai y Cyngor a'r bobl sy'n gwneud cais am dai Cyngor yn cyd-fynd.

### Proffil Stoc Dai y Cyngor

Fe gafodd y mwyafrif o dai Cyngor yn y Fwrdeistref Sirol eu hadeiladu pan oedd demograffeg a dyheadau pobl yn wahanol i heddiw.

O ganlyniad, roedd y canolbwynt ar adeiladu eiddo ar gyfer teuluoedd, heb fawr o ddarpariaeth ar gyfer llety un ystafell wely ar gyfer anghenion cyffredinol.

Dros amser, mae hyn wedi arwain at gynnydd o ran camgymhariad rhwng yr eiddo y gallwn ei gynnig i ymgeiswyr ac anghenion ymgeiswyr sydd wedi cofrestru ar gyfer tai Cyngor.

Ar hyn o bryd, o'r rhai sydd wedi cofrestru ar gyfer tai Cyngor, mae 969 o ymgeiswyr dan 55 oed yn gofyn am lety un ystafell wely. Pan fo cyfraddau trosiant ar gyfer y math hwn o eiddo yn cael eu hystyried, mae galw yn fwy na chyflenwad.

Gan y bydd 146 o'r aelwydydd person sengl hyn yn ddigartref ac yn byw mewn llety dros dro ar hyn o bryd, mae hyn yn arwydd o'r pwysau ar lety fforddiadwy un ystafell wely yn y Fwrdeistref Sirol.

Mae gan y sector rhentu preifat gyflenwad mwy o lawer o lety a fyddai'n addas ar gyfer anghenion yr aelwydydd hyn ond gall fod yn anodd datgloi'r adnodd hwn. Nododd Darparwyr Gwasanaeth hyn yn ystod y broses ymgynghori ar gyfer yr Asesiad o Anghenion. Roedd yr adborth yn cynnwys:

> *"Prin yw'r llety rhent preifat sydd ar gael i bobl sy'n hawlio'r Credyd Cynhwysol."*

> *"Prinder llety fforddiadwy a landlordiaid preifat yn gwrthod derbyn budd-daliadau tai."*

Er mwyn helpu i gyflawni'r nod hwn byddwn yn:

- Ehangu'r Asiantaeth Osod Leol i gynyddu cyflenwad llety rhent preifat fforddiadwy.
- Ystyried ailfodelu stoc presennol y Cyngor i adlewyrchu galw, o fewn y cyfleoedd ariannol sydd ar gael.
- Gweithio gyda landlordiaid i annog cyfranogiad yng Nghynllun Prydlesu Sector Preifat Llywodraeth Cymru a chynyddu dewisiadau tai i bobl yn y Fwrdeistref Sirol.

## Dadansoddiad o Stoc y Cyngor

| Math o Eiddo | Number |
|---|---|
| Gwarchod | 660 |
| Fflat un ystafell | 42 |
| Fflat 1 ystafell wely | 1040 |
| Fflat 2 ystafell wely | 1323 |
| Fflat 3 ystafell wely | 84 |
| Tŷ 1 ystafell wely | 5 |
| Tŷ 2 ystafell wely | 2212 |
| Tŷ 3 ystafell wely | 4503 |
| Tŷ 4+ ystafell wely | 133 |
| Byngalo 1 ystafell wely | 849 |
| Byngalo 2 ystafell wely | 194 |
| Byngalo 3 ystafell wely | 11 |
| Byngalo 4 ystafell wely | 1 |

## Blaenoriaeth Strategol 7

**Sicrhau bod gennym ymrwymiad cryf ar draws pob adran ac asiantaeth i ddull partneriaeth, amlasiantaeth, o atal digartrefedd.**

Caiff materion fel anghenion cymhleth a diagnosis deuol eu nodi'n aml fel rhesymau dros ddigartrefedd a rhwystr i ailgartrefu. Er mwyn gwrthsefyll hyn, mae'n rhaid cael ymrwymiad rhwng pob partner bod achosion digartrefedd yn fwy cymhleth na diffyg to uwch pen rhywun.

Gellir colli llety addas yn aml oherwydd problemau sy'n codi o salwch unigolyn, dibyniaeth, neu am nad oes gan unigolyn y sgiliau angenrheidiol er mwyn rheoli cartref.

Er mwyn helpu i gyflawni'r flaenoriaeth hon, byddwn yn:

- Adeiladu ar waith y Grŵp Llywio Digartrefedd a'r Grŵp Darparwyr i sicrhau bod darparwyr cefnogaeth yn ymateb i anghenion unigolyn, pan nodwyd bod angen eu mewnbwn.
- Chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo cydweithio wrth gomisiynu gwasanaethau, fel bod modd rhoi sylw i faterion diagnosis deuol neu anghenion cymhleth mewn modd cyfannol.
- Ceisio ehangu cysylltiadau â'r trydydd sector a nodi lle mae gwasanaethau cymorth y gellir eu defnyddio yn bodoli eisoes.
- Adeiladu ar y cydweithio presennol sy'n cael ei wneud gan y timau Tenantiaethau Tai a Dewisiadau Tai a sicrhau bod atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud cyn gynted ag sy'n bosibl pan gaiff anghenion cymorth eu nodi.
- Bydd y Porth Cymorth Tai yn parhau i hyrwyddo a datblygu rhannu gwybodaeth a chydweithio ar draws sectorau wrth gefnogi pobl ag anghenion cymhleth.

### Enghraifft Arfer Da - Cydweithio - The Wallich a Phorth Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Mae staff yn The Wallich sy'n seiliedig yn Wrecsam yn defnyddio'r profiad a'r wybodaeth sydd ganddynt o weithio gyda phobl ddigartref. Mae hyn yn eu galluogi i weithio'n agos gyda'r Swyddog Porth i helpu i roi cynlluniau cymorth priodol ar waith ar gyfer pob unigolyn.

Cynhelir cyfarfodydd ar y cyd hefyd mewn achosion pan fo ymddygiad preswylydd yn golygu bod eu tenantiaeth yn The Wallich mewn perygl. Ar sawl achlysur, mae staff wedi gweld bod y cydweithio hwn wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae wedi atal pobl rhag dychwelyd i fod yn ddigartref. Mae'r ffordd hon o ddelio â phroblem wedi galluogi staff i ganfod gwraidd problem a rhoi ymyriadau priodol ar waith, fel symud unigolyn i brosiect tai â chymorth arall, lle nad oes dylanwadau negyddol. O ganlyniad, maent wedi teimlo'n fwy hapus, bodlon a diogel.

## Blaenoriaeth Strategol 8

**Nodi sbardunau digartrefedd posibl i alluogi gwasanaethau i barhau i gynnig ymyrraeth/atal cynnar fel bo'n briodol a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod atgyfeiriadau am gymorth yn cael eu blaenoriaethu a'u bod yn ddi-dor.**

Gall gwaith atal digartrefedd fod yn allweddol o ran gwrthdroi tenantiaethau sy'n methu, pan gaiff ei wneud mewn modd cydlynol ac amserol.

O'r 64 o denantiaethau'r Cyngor a fethodd yn ystod 2019/20, ac eithrio'r rhai a gafodd eu cadw yn y ddalfa, gellid dadlau y gallai'r 53 arall fod wedi'u hatal drwy roi ymyriadau amserol a phriodol ar waith.

Er mwyn helpu i gyflawni'r flaenoriaeth hon, byddwn yn:

- parhau i ddatblygu rôl y Porth Cymorth Tai a hyrwyddo ymyrraeth gynnar;
- gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod diweddariadau'n dod i law o fewn terfynau amser a gytunwyd pan gaiff atgyfeiriadau eu gwneud. Bydd hyn yn galluogi staff Dewisiadau Tai a Chymorth Tai i fonitro achosion, bod yn ymwybodol bod cymorth ar waith neu ail-atgyfeirio, er enghraifft, mewn achosion o ddiffyg ymgysylltiad, capasiti darparwr;
- sicrhau bod asesiadau dechreuol mor fanwl ag sy'n bosibl fel bod modd darparu'r cymorth mwyaf priodol i unigolyn;
- sicrhau bod gan y Gwasanaeth Cymorth Tai gapasiti i ddelio ag atgyfeiriadau i atal uwchgyfeirio problemau lefel isel;
- gweithio gyda phartneriaid i gynorthwyo i nodi pwyntiau allweddol, a ddylai sbarduno atgyfeiriadau am gymorth;
- gweithio i nodi a darparu cymorth priodol cyn gynted ag sy'n bosibl wrth ddyrannu tai Cyngor; a
- gweithio gyda phartneriaid sydd wedi cofrestru gyda Dewis i hyrwyddo a hysbysebu'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael yn lleol, mor eang ag sy'n bosibl.

## Enghraifft Arfer Da - Byw'n Annibynnol - Proses Atgyfeirio Cyflym

Mae staff Byw'n Annibynnol wedi bod yn cynorthwyo Mr T ers mis Awst eleni. Cyn hyn, roedd wedi bod yn byw yng nghartref ei rieni fel meddiannwr anghyfreithlon, heb unrhyw hawliau olynu.

Cafodd gymorth i lenwi ffurflenni cais am dai a rhoddwyd Blaenoriaeth Band 2 i'w gais.

Wrth aros i gael ei ailgartrefu, dechreuodd iechyd meddwl Mr T ddirywio. Roedd yn ei chael yn anodd ymdopi mewn llety anaddas ac roedd pobl ifanc leol yn aflonyddu arno. Roedd y sŵn o'r tu allan yn achosi i'w anhwylder straen wedi trawma (PTSD) waethygu ac nid oedd yn teimlo'n ddiogel bellach. Gan ymateb, cysylltodd gweithiwr cefnogi Mr T ag Un Pwynt Mynediad y Cyngor yn yr adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Cymerwyd camau cyflym a chynhaliwyd asesiad dros y ffôn. Cafodd ei drosglwyddo'n uniongyrchol i Banel Iechyd a Gofal Cymdeithasol yr Adran Dai ac mae ei gais wedi cael Blaenoriaeth Band 1. Bydd hyn yn cyflymu'r broses ailgartrefu i Mr T.

Mae cydweithio pellach wedi sicrhau bod y Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol yn crwydro cymdogaeth Mr T yn rheolaidd er mwyn atal unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol pellach sydd wedi'i anelu ato.

## Blaenoriaeth Strategol 9

**Sicrhau bod gwasanaethau, fel allgymorth pendant, ar waith er mwyn ceisio rhoi diwedd ar gysgu allan ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.**

Ers dechrau'r pandemig a'r cyfnod clo cenedlaethol cyntaf, rydym wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y Cyngor wedi dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Mae hyn wedi cynnwys sicrhau ein bod yn cynnig llety i bawb a oedd yn cysgu allan neu mewn perygl o gysgu allan.

Er mwyn helpu i gyflawni'r nod hwn byddwn yn:

- adeiladu ar lwyddiant ein cais Cam 2 i ddarparu canolbwynt brysbennu i sicrhau bod aelwydydd digartref yn cael y llety cywir yn y tymor hir;
- sicrhau nad oes angen i neb ddychwelyd at gysgu allan ar ôl y pandemig, yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru, byddwn yn;
- parhau i ddarparu llety ychwanegol gyda chymorth estynedig, yn yr eiddo presennol;
- paratoi ar gyfer adleoli'r cyfleuster hwn i lety wedi'i adeiladu'n bwrpasol ar ôl cyflwyno cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllid grant digartrefedd Cam 2;
- adeiladu ar lwyddiannau'r gwaith allgymorth presennol i sicrhau bod ymyriadau cyflym ar waith ar gyfer pawb sy'n cysgu allan; a
- deall ei bod yn bosibl y bydd angen mwy o amser ar rai unigolion i addasu i fywyd oddi ar y stryd ac y gallai hyn olygu sawl atgyfeiriad cyn i unigolyn lwyddo.

## Blaenoriaeth Strategol 10

**Gweithio gyda phartneriaid i gryfhau cymorth sy'n gysylltiedig â thai a fydd yn galluogi unigolion i gynnal eu cartrefi a bod yn annibynnol yn ariannol.**

Er mwyn cyflawni'r nod hwn byddwn yn:

- Gweithio gyda chydweithwyr Cymunedau am Waith i hwyluso mynediad at gyfleoedd hyfforddiant.
- Cysylltu â phartneriaid yn y sector gwirfoddol lleol i hyrwyddo gwirfoddoli fel cam cychwynnol i gael cyfleoedd profiad gwaith.
- Gweithio i ddarparu'r sgiliau sy'n hanfodol er mwyn cynnal cartref yn llwyddiannus.
- Ceisio sicrhau ymgysylltu â phartneriaid yn y Gwasanaethau Addysg i ddarparu gwybodaeth briodol am dai i ysgolion.

### Enghraifft Arfer Da - The Wallich - cymorth 24 awr

Mae gan nifer o breswylwyr a gaiff eu hatgyfeirio at brosiectau tai â chymorth The Wallich yn Wrecsam hanes o fethu â chynnal tenantiaeth, neu fethu ymdopi mewn lleoliad Gwely a Brecwast.

Mae hyn yn arwydd bod angen cymorth 24 awr arnynt. Trwy ddarparu cymorth ar y lefel hon, gall staff sylwi ar arwyddion sy'n dangos bod unigolyn yn cael trafferth gyda phroblem a threfnu'r cymorth priodol i'w helpu i beidio â mynd i sefyllfa argyfwng.

### Enghraifft Arfer Da - Gwaith Cynhwysiant Ariannol The Wallich

Wrth fynd i lety â chymorth, roedd budd-daliadau nifer o breswylwyr newydd yn cael eu talu i mewn i gyfrif ffrind. Rhoddodd staff gyngor a'u cynorthwyo i agor eu cyfrif eu hunain a threfnu sesiynau cymorth i gyllidebu.

Mae nifer o breswylwyr wedi gallu symud o fod ag ychydig o reolaeth dros eu harian eu hunain i fod yn ariannol annibynnol, gan dalu taliadau gwasanaeth yn brydlon, rheoli eu harian yn effeithiol er mwyn prynu bwyd o ansawdd da a gallu cynilo rhywfaint ar gyfer y dyfodol.

Mewn achosion pan fo cyfran fawr o incwm unigolyn wedi'i ddefnyddio i ariannu arferion camddefnyddio sylweddau, mae'r staff wedi cydweithio â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, meddygon teulu a gwasanaethau iechyd meddwl. Mae hyn wedi arwain at breswylwyr yn cael diagnosis proffesiynol a chael meddyginiaeth briodol ar bresgripsiwn. O ganlyniad, mae'r arian a oedd yn cael ei wario ar brynu sylweddau ar y stryd wedi lleihau ac mae pobl wedi bod â mwy o arian i'w wario ar bethau a fydd o fudd iddyn nhw ac a fydd yn eu galluogi i gyllidebu eu harian yn briodol.

## Enghraifft Arfer Da - Cydweithio - The Wallich a Gwasanaethau Cymorth Arbenigol

Bu staff yn gweithio gyda phreswylwyr â phroblemau camddefnyddio sylweddau a oedd yn byw mewn tai â chymorth i'w hannog i ymgysylltu â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau cyn dechrau proses ddadwenwyno gyda phrosiect adfer dilynol.

Er bod cyfnodau clo cenedlaethol oherwydd pandemig Covid, roedd lle iddynt fynychu cyfarfodydd ar-lein mewn preifatrwydd, a oedd yn ofyniad fel rhan o'r prosiect adfer.

Roedd ystafelloedd y preswylwyr yn cael eu cadw'n agored tra'r oeddent yn y broses ddadwenwyno, er mwyn lleihau risgiau pe baent yn gadael. Gwnaed y penderfyniad hwn er mwyn lleihau'r risg y byddent yn dychwelyd i gysgu allan a chamddefnyddio sylweddau. Nid yw hyn wedi digwydd ac mae'r preswylwyr a gafodd eu hatgyfeirio wedi parhau â'u rhaglen ddadwenwyno.

## Arfer Da - Gweithio mewn Partneriaeth â Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Daeth atgyfeiriad i law trwy'r Porth ar ddiwedd mis Mehefin 2021. Cysylltwyd â'r cleient dros y ffôn a chynhaliwyd asesiad risg dechreuol. Trefnwyd ymweliad cartref ar gyfer 28/6/21.

Roedd y cleient yn ddynes bryderus ac roedd ar bigau'r drain. Eglurodd ei bod yn ei chael hi'n anodd cwrdd â phobl newydd a chynnal sgyrsiau. Er bod yr ymweliad cyntaf yn anodd, llwyddodd i egluro ei sefyllfa bresennol.

Roedd yn dod yn glir mai gwasanaethau estynedig oedd o fwyaf o fudd i'r ddynes o ran gwella ansawdd ei bywyd. Mae'r Gweithiwr Cyswllt wedi tawelu ei meddwl ar bob cam wrth gynnwys gwasanaethau cymorth eraill. Gyda chaniatâd a chytundeb y cleient, mae'r Gweithiwr Cyswllt wedi trefnu gwasanaethau gan nifer o wahanol weithwyr proffesiynol ac mae'n darparu cymorth mewn cyfarfodydd dechreuol, asesiadau ac apwyntiadau wrth symud ymlaen. Mae hyder y ddynes yn cynyddu, mae ei hunan-barch yn gwella ac mae wedi'i chymell i barhau i gyrraedd y nodau sydd yn ei chynllun gofal.

## Enghraifft Arfer Da: Housing Justice Cymru - Prosiect Citadel

Mae Citadel yn brosiect atal digartrefedd sy'n defnyddio gwirfoddolwyr i gefnogi pobl sydd dan fygythiad o fynd yn ddigartref i sefydlu a/neu gynnal tenantiaeth.

Fe'i sefydlwyd i ddechrau i gefnogi gwesteion ar ôl iddynt symud ymlaen o Lochesi Nos HJC. Soniodd y rhai rydym ni'n eu cefnogi, sydd wedi profi digartrefedd, fod angen rhagor o gymorth yn ystod y misoedd cyntaf ar ôl sicrhau tenantiaeth. Mae astudiaethau wedi dangos budd cymorth yn ystod misoedd cyntaf tenantiaeth newydd hefyd, oherwydd os bydd tenantiaethau yn methu, maen nhw'n tueddu i fethu rhwng yr ail a'r chweched mis.

Fe wnaethom hefyd gydnabod bod gwasanaethau traddodiadol tebyg, a oedd yn dibynnu ar weithwyr cefnogi cyflogedig, yn aml yn darparu cymorth am gyfnod byr, heb ddatblygu rhwydweithiau cymorth a chadernid i'r unigolyn sy'n cael cymorth, a oedd yn arwain at denantiaethau'n methu ar ôl i'r cymorth dwys dechreuol gael ei dynnu'n ôl.

Ymhellach, mae cyfoeth o ymchwil sy'n dangos pwysigrwydd rôl oedolion y gellir ymddiried ynddynt a chyswllt â chymuned er mwyn galluogi pobl i ymgartrefu mewn lleoliad newydd, eu helpu i reoleiddio eu ffordd o fyw a'u hatal rhag ymgysylltu ag ymddygiad sy'n niweidio iechyd. Mae hyn yn berthnasol i'r garfan o bobl rydym yn eu cefnogi, ac mae'n hanfodol iddynt.

## Sut mae Citadel yn gweithio?

Mae Citadel yn defnyddio gwirfoddolwyr i gefnogi pobl, trwy ddull sy'n seiliedig ar asedau. Mae'r model yn defnyddio gwirfoddolwyr am nifer o resymau. I ddechrau, rydym yn gwybod bod cael cefnogaeth gan oedolion nad ydynt yn cael eu talu yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r bobl rydym yn eu cefnogi oherwydd y tosturi a'r cyswllt sy'n cael eu ffurfio. Mae defnyddio gwirfoddolwyr o'r cymunedau rydym ni'n gweithio ynddynt yn golygu y gallant gysylltu pobl â gwasanaethau, amwynderau a rhwydweithiau cymorth yn hawdd. Yn olaf, mae defnyddio gwirfoddolwyr yn golygu nad oes terfyn amser ar gymorth a gynigir, oherwydd bydd gwirfoddolwyr yn parhau i ddarparu cymorth gyhyd ag sydd angen, yn wahanol i rai modelau byr, dwys a delir.

Mae Citadel yn defnyddio model 'Cylchoedd Cymorth' i adeiladu rhwydwaith cymorth i unigolion, gan gynnwys unrhyw asiantaethau sy'n ymwneud eisoes ac asiantaethau eraill a allai fod o fudd i'r unigolyn. Mae'r dull hwn yn adeiladu rhwydweithiau sy'n para ar gyfer yr unigolion ac mae'n atal datblygu dibyniaeth ar y gwirfoddolwr.

Mae gwirfoddolwyr Citadel wedi'u hyfforddi, wedi cael gwiriadau Gwasanaethu Datgelu a Gwahardd (GDG) ac yna wedi'u paru gydag unigolyn i'w cefnogi. Maen nhw'n cwrdd ag unigolion yn rheolaidd (mewn lle cyhoeddus, e.e. caffi), dros gyfnod o 3-6 mis i ddechrau gan gael sesiwn oruchwylio gyda'r Cydlynydd Citadel unwaith bob mis i sicrhau bod pob pariad yn llwyddiannus.

Mae'r gwirfoddolwyr yn helpu unigolion i ganfod unrhyw eitemau hanfodol ar gyfer eu cartref. Pan fydd yr anghenion ymarferol uniongyrchol wedi'u diwallu, bydd y gwirfoddolwyr yn gweithio gyda'r unigolyn i ddeall sut gallant eu helpu i ddatblygu'r bywyd maen nhw am ei gael. Mae hyn yn amrywio, a gall gynnwys, canfod gwaith, datblygu hobïau, canfod cefnogaeth ar gyfer materion trawma ac iechyd meddwl neu gysylltu â gwasanaethau fel meddyg teulu, banc, canolfan waith ac ati.

Caiff llwyddiant Citadel ei fesul yn ôl nifer y gwirfoddolwyr a gaiff eu recriwtio, pobl a gefnogir, y tenantiaethau newydd a gaiff eu sicrhau ac am ba mor hir mae pobl wedi aros yn eu tenantiaethau gyda'n cefnogaeth ni (hyd at 12 mis).

# Ymgysylltu â Budd-Ddeiliaid

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, bu ymgynghoriad â nifer o fudd-ddeiliaid sy'n darparu gwasanaethau cymorth ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Tîm Rheoli Prosiect/ Anabledd Wrecsam
- JustOne
- Hafan Cymru
- Voyage Care
- Cais
- Bawso
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - Dewisiadau Tai
- Clwyd Alyn
- Tîm Cymorth i Deuluoedd
- Nacro
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam - Strategaeth Tai
- Yr Eglwys yng Nghymru/ Housing Justice Cymru
- Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Gan fod y Strategaeth hon wedi'i datblygu tra'r oedd cyfyngiadau'n dal i fod ar weithio mewn swyddfa a chwrdd wyneb i wyneb, cynhaliwyd ymgysylltiad ac ymgynghoriad â phartneriaid dros y we trwy ddulliau electronig neu trwy holiaduron papur.

Fe wnaethon hefyd ystyried yr adborth a gafwyd gan fudd-ddeiliaid yn ystod datblygiad Rhaglen Weithredu blwyddyn Rhaglen Cymorth Tai y Cyngor.

Fe wnaethom ddefnyddio'r adborth hwn i helpu i lunio ein blaenoriaethau oherwydd roedd yn canolbwyntio ar le'r oedd budd-ddeiliaid yn gweld bylchau yn y ddarpariaeth bresennol o ran tai a gwasanaethau cefnogi.

Hefyd, nodwyd materion a all helpu i lywio gwaith arall yn y Cyngor, er eu bod y tu hwnt i gylch gwaith y Strategaeth hon, er enghraifft diffyg llety fforddiadwy yn y sector rhentu preifat a'r ffaith nad yw stoc tai'r Cyngor yn cyd-fynd ag anghenion ymgeiswyr o ran math a maint.

## Adborth Budd-Ddeiliaid

Fe wnaeth adborth gan fudd-ddeiliaid yn ystod datblygiad Rhaglen Weithredu blwyddyn Rhaglen Grant Cymorth Tai y Cyngor amlygu bylchau o ran darpariaeth tai a chefnogaeth.

Y prif themâu oedd yn codi oedd:

- Mae cyllid y Grant Cymorth Tai yn adnodd gwerthfawr i alluogi pobl sydd angen cymorth neu lety i gael cefnogaeth i gynnal eu tenantiaethau.
- Wrth ddarparu cymorth, roedd llawer o fudd-ddeiliaid yn teimlo ei bod yn bwysig dilyn dull cyfannol. Gallai hyn gynnwys cefnogi'r teulu cyfan.
- Ar ôl y pandemig, gallai darparwyr cymorth weithio gyda chyflogwyr lleol, busnesau a sefydliadau addysgol, nid yn unig i gynorthwyo'r unigolyn ond i helpu i adfywio'r economi leol hefyd.
- Diffyg llety â chymorth, gan gynnwys pobl ifanc sy'n gadael gofal a phobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol, Trawsrywiol, Queer/Cwestiynu (LHDTC+).
- Diffyg llety fforddiadwy yn gyffredinol oherwydd bod landlordiaid yn y sector rhentu preifat yn dal i fod yn anfodlon derbyn tenantiaid sy'n cael budd-dal tai.
- Mae diffyg cefnogaeth i bobl ag anghenion cymhleth a/neu ddiagnosis deuol.
- Diffyg llety â chymorth i bobl â phroblemau iechyd meddwl.
- Mae angen mwy o wasanaethau i bobl â llawer o anghenion cefnogaeth ond nad oes angen gofal arnynt.
- Ychydig iawn o ddewisiadau sydd o ran llety neu ddewisiadau symud ymlaen i rai na fyddant o bosibl yn barod i fyw yn annibynnol am beth amser a'r rhai a allai fod angen llawer o amser cyn iddynt fod yn barod i ymgysylltu â'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn datblygu sgiliau byw'n annibynnol.
- Mae amser aros hir i bobl sydd angen mynediad at wasanaethau iechyd meddwl.
- Nid yw'r stoc tai cymdeithasol sydd ar gael yn cyd-fynd ag anghenion rhai sydd angen tai, o ran math a maint eiddo.
- Mae angen darparu mwy o gefnogaeth estynedig i bobl yn eu cartrefi presennol.
- Byddai gwneud atgyfeiriadau am gymorth yn gynt yn helpu i atal achosion o golli llety.
- Mae angen mwy o lety â chymorth i bobl sydd â phrofiad o'r System Cyfiawnder Troseddol.
- Mae angen proses drosglwyddo fwy llyfn o Wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Blant i Wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion.
- Gall oedi o ran addasiadau sy'n cael eu gwneud i rai sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty olygu bod angen canfod llety brys addas.

- Mae angen mwy o wasanaethau i baratoi pobl ag anableddau dysgu i symud i lety.
- Yn aml, bydd eiddo yn y sector rhentu preifat yn rhy ddrud a gallant olygu bod pobl yn cael eu dal mewn tlodi.
- Yn aml, caiff cymorth ei ddarparu yn ystod oriau swyddfa yn hytrach na phan fydd ei angen ar bobl.
- Mae diffyg cymorth arbenigol i weithio gyda grwpiau diamddiffyn penodol neu grwpiau wedi'u hallgau, pobl â rhwystrau cyfathrebu, ieithyddol neu ddiwylliannol, e.e. pobl ag Awtistiaeth, dementia, pobl ddu, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.
- Mae diffyg llety â chymorth cyffredinol i bobl sy'n hŷn na 25 oed.
- Mae angen i fodelau cymorth fod yn hyblyg a gallu addasu i ddiwallu anghenion unigolyn os byddant yn newid.

# Asesiadau o Effaith

Mae gan y Cyngor adnodd Asesu Effaith ar-lein a ddefnyddir fel rhan o'r broses wrth ffurfio ac addasu strategaethau, polisïau, gweithdrefnau a gwasanaethau neu eu tynnu'n ôl.

Mae hyn yn cofnodi effaith blaenoriaethau strategol ar blant, siaradwyr Cymraeg a'r rhai sydd dan anfantais economaidd, yn ogystal â'r rhai â nodweddion gwarchodedig.

Mae canfyddiadau'r Asesiad o Effaith a gynhaliwyd wrth lunio'r Strategaeth hon ar gael fel dogfen ar wahân - Asesiad o Effaith Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai.

Mae copi ar gael am ddim ar gais.

Mae'r canfyddiadau allweddol fel a ganlyn:

- Bydd nodau cyffredinol y Strategaeth a'i chynllun gweithredu o fudd cadarnhaol i breswylwyr y Fwrdeistref Sirol.

Yn dilyn ymgynghoriad â phartneriaid mewnol ac allanol, codwyd y materion canlynol ac fe'u cofnodwyd yn yr Asesiad o Effaith:

- Pobl Ifanc/ Plant - Mae angen cyfeirio at wneud gwaith allgymorth gyda phartneriaid Addysg i sicrhau bod pobl ym maes addysg yn ymwybodol o'r heriau sy'n gysylltiedig â bod â thenantiaeth a/neu fod yn ddeiliad tŷ.
- Pobl Ifanc/Plant - Dylid cyfeirio at gyfryngu. Gall hwn fod yn adnodd defnyddiol wrth atal perthnasoedd teuluol rhag methu.
- Mae'r astudiaethau achos o ran cyflogaeth a chyfleoedd gwirfoddoli wedi amlygu sut gallan nhw gynorthwyo pobl â phroblemau iechyd meddwl, o ran mwy o ymdeimlad o hunan-werth a gallu uniaethu â phobl sy'n darparu cymorth.
- Mae rôl i'r Adran Dai yn y grŵp cynllunio strategol sy'n cael ei sefydlu gyda Charchar Ei Fawrhydi Berwyn, i reoli'r broses o symud pobl sy'n gadael carchar ymlaen yn briodol.

# Gweithredu, Monitro ac Adolygu

## Gweithio mewn Partneriaeth

Mae'r Strategaeth hon wedi'i hategu gan y sylweddoliad na chaiff ei nodau ac amcanion eu bodloni heb ddull darparu mewn partneriaeth. Yn aml, mae'r rhesymau dros ddigartrefedd nifer o bobl yn gyfuniad o wahanol faterion, sy'n effeithio ar ei gilydd yn aml. O ganlyniad, mae angen i fwy nag un asiantaeth ddarparu cefnogaeth yr un pryd, yn dibynnu ar anghenion yr unigolyn.

Yn y gorffennol, mae ymdrechion i ddatrys digartrefedd unigolyn ac anallu i gynnal cartref wedi canolbwyntio ar fynd i'r afael â phrif angen o ran cymorth, heb roi sylw i'r lleill. Yn aml, mae hyn wedi arwain at fethiant.

Bydd Darparwyr Cymorth Tai yn gweithio gyda'r Cyngor i sicrhau bod nodau'r Strategaeth yn cael eu cyflawni ar lawr gwlad.

Ar hyn o bryd, mae Fforwm Darparwyr Cymorth Tai, sydd wedi bod yn weithredol ers 2015. Er ei fod wedi'i sefydlu i ddechrau fel ffordd o ddarparu'r gwasanaethau cymorth angenrheidiol a nodwyd yn Strategaeth Digartrefedd y Cyngor, bydd ei ganolbwynt yn parhau ar ddarparu gwasanaethau cymorth ond y gwasanaethau a nodwyd yn ystod Asesiad o Anghenion y Grant Cymorth Tai ac sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth hon.

Bydd hefyd yn rhywle i drafod effeithiolrwydd darpariaeth cymorth a lle gellir nodi unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg o ran anghenion cymorth, gyda'r bwriad o lywio darpariaeth gwasanaeth a chomisiynu yn y dyfodol.

## Ffynonellau Cyllido

Mae'r ffynonellau cyllido canlynol wedi'u nodi fel rhai hanfodol er mwyn darparu'r Strategaeth hon yn llwyddiannus

- Cyllid y Cyngor
- Grant Cymorth Tai
- Grant Atal Digartrefedd Llywodraeth Cymru
- Cyllid partneriaeth gyda Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Gwasanaethau Plant
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

## Monitro, Gweithredu ac Adolygu

Bydd gan y Grŵp Llywio Digartrefedd gyfrifoldeb dros fonitro cynnydd yn erbyn y camau a nodwyd yn y cynllun gweithredu a thros sicrhau bod egwyddorion a blaenoriaethau'r ddogfen strategaeth yn cael eu cyflawni.

Bydd gan y grŵp hwn fandad i godi unrhyw faterion gyda sefydliadau partner hefyd, os teimlir eu bod yn effeithio ar allu i ddarparu'r Strategaeth hon.

Cynhelir adolygiad o'r Strategaeth bob 2 flynedd a chynhelir adolygiad llawn bob pum mlynedd, fel a nodir yng nghanllawiau presennol Llywodraeth Cymru.

Bydd pob partner yn rhan o'r broses adolygu, ar lefel weithredol a lefel strategol. Bydd hyn yn galluogi nodau strategol i gael eu halinio â'r adnoddau a'r anghenion cymorth a nodwyd gan ddarparwyr gwasanaeth rheng flaen.

# Atodiad A - Cynllun Gweithredu

## Blaenoriaeth Strategol 1

Darparu Gwasanaeth Dewisiadau Tai cadarn ac effeithiol

### Camau Gweithredu

- Datblygu amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu i weddu i anghenion yr unigolyn.
- Gweithredu argymhellion ymchwiliad 'Ar Ei Liwt Ei Hun' yr Ombwdsmon.
- Darparu cyngor a chymorth o safon ar bwynt cyswllt cyntaf er mwyn atal digartrefedd.
- Cynyddu nifer yr achosion atal a gofnodwyd.
- Lleihad o ran nifer y ceisiadau am adolygiad

### Amserlen

Blwyddyn 2

### Arweinydd

LR

### Canlyniad/Allbynnau

- Mae gan staff Dewisiadau Tai ffonau clyfar, gliniaduron i gyflawni dyletswyddau, gallant gyfathrebu dros Teams/ Zoom, e-bost a ffôn ac mae ardal derbynfa gydag ystafelloedd cyfweld ar gyfer asesiadau wyneb i wyneb gyda chwsmeriaid.
- Mae dogfennau hawdd i'w darllen ar gael ar gyfer yr holl ohebiaeth yn y gwasanaeth.
- Symudwyd i adeilad newydd gyda'i dderbynfa ei hun, siarad â darparwyr i gyflwyno cyn gynted ag sy'n bosibl. Mae'r gwasanaeth wedi'i gyfuno bellach gan gynnig un pwynt cyswllt.
- Trwy'r Tîm Dewisiadau Tai presennol, mae gennym staff arbenigol sy'n edrych yn benodol ar atal, h.y. NASS a Phobl sy'n Gadael Carchar.
- Mae gwaith parhaus yn cael ei wneud i leihau nifer yr achosion sy'n cael eu herio gyda cheisiadau am adolygiadau, gyda'r bwriad o reoli disgwyliadau.

## Blaenoriaeth Strategol 2

Gwella gwasanaethau cefnogi sy'n seiliedig ar lety i sicrhau dull integredig sy'n diwallu anghenion pobl ag anghenion niferus a chymhleth, gan gynnwys anghenion iechyd meddwl.

### Camau Gweithredu

- Sicrhau bod cyfleusterau yn y llety dros dro i ddarparu ar gyfer gwasanaethau cefnogi ac asiantaethau.

### Arweinydd

LR

### Canlyniad/Allbynnau

- Lle bo'n bosibl, mae hyn wedi'i weithredu ac mae'n barhaus. Mae gan bob safle Swyddogion Cefnogi Tai a chaiff unrhyw gymorth arbenigol ei ddyrannu trwy'r Porth. Caiff asiantaethau eu hannog i weithio mewn partneriaeth â'i gilydd i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r unigolyn.
- Mae hyn yn faen prawf ar gyfer unrhyw lety dros dro newydd.
- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn symud at ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth ddarparu llety gydag eiddo hunangynhwysol.

## Blaenoriaeth Strategol 3

Atal digartrefedd ymhlith ieuenctid.

### Camau Gweithredu

- Gweithio gyda sefydliadau partner i gynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar wasanaethau cyfryngu er mwyn atal perthnasoedd teuluol rhag methu.
- Ceisio sefydlu cysylltiadau gydag ysgolion lleol er mwyn hyrwyddo'r sgiliau angenrheidiol sydd eu hangen er mwyn byw yn annibynnol, gan gynnwys sgiliau cyllidebu.

### Arweinydd

SJ/LR

### Canlyniad/Allbynnau

- Daw atgyfeiriadau gan y Gwasanaethau Ieuenctid yn bennaf. Mae angen i ni geisio ymgysylltu â'r gwasanaethau a sicrhau eu bod yn cael eu dyrannu cyn gynted ag sy'n bosibl.
- Mae gan yr adran Dewisiadau Tai Swyddogion pwrpasol sy'n delio â Digartrefedd ymhlith Ieuenctid ac maent wedi peilota sgwrs mewn ysgolion i drafod digartrefedd yn y gorffennol. Croesawyd hyn yn fawr a'r bwriad oedd ehangu pe bai'r adnoddau'n caniatáu.
- Mynychodd staff Dewisiadau Tai Gynhadledd Genedlaethol ar Atal Digartrefedd ymhlith Ieuenctid.

## Blaenoriaeth Strategol 4

Gweithio gyda phartneriaid i archwilio darpariaeth mwy o lety â chymorth addas i'r rhai sy'n gadael yr Ystâd Ddiogel.

### Camau Gweithredu

- Sicrhau presenoldeb mewn trafodaethau ar lefel strategol a gweithredol er mwy nodi llety addas.
- Gweithio gyda Thimau Prawf ac Adsefydlu i sicrhau bod manylion am ryddhau unigolyn yn cael eu rhannu'n amserol a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol er mwyn galluogi staff Dewisiadau Tai a Chymorth Tai i nodi'r dewisiadau mwyaf priodol o ran llety a chymorth.
- Dechrau sgyrsiau gyda phartneriaid i alluogi mewnbwn i waith strategol sy'n cael ei wneud gyda Charchar Ei Fawrhydi Berwyn o ran symud pobl sy'n gadael carchar ymlaen.

### Arweinydd

LR

### Canlyniad/Allbynnau

- Mae sawl eiddo wedi'u nodi i alluogi unigolion i fyw yn annibynnol lle bo'n bosibl. Caiff cymorth ei gysylltu â hyn er mwyn ceisio sicrhau bod y cytundeb trwydded yn cael ei gynnal a bod dewisiadau symud ymlaen yn cael eu harchwilio mewn modd amserol.
- Partneriaethau cryfach gyda Thimau Adsefydlu a Phrawf er bod cynnydd o'r Cynllun Rhyddhau yn Gynnar, sydd wedi effeithio ar ein gallu i ddarparu'r Llwybr Carcharorion.
- Caiff trafodaethau pellach eu cynnal gyda chydweithwyr a phartneriaid trwy'r Bwrdd Cynllunio Ardal.

## Blaenoriaeth Strategol 5

Byddwn yn datblygu modelau tai arloesol, fel ailgartrefu cyflym er mwyn sicrhau bod y cyfnod y bydd aelwydydd yn ei dreulio mewn llety dros dro neu lety â chymorth yn fyr.

### Camau Gweithredu

- Lleihad o ran nifer y lleoliadau mewn llety Gwely a Brecwast.
- Adolygu'r polisi dyrannu yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth newydd.

### Arweinydd

SJ/LR

### Canlyniad/Allbynnau

- Mae Cydlynydd Ailgartrefu Cyflym ar gael ac mae'n dadansoddi'r holl ddata.
- Mae'r adolygiad o'r Polisi Dyrannu yn mynd rhagddo ac mae'n datblygu'n gyflym. Caiff y polisi wedi'i gymeradwyo ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol ar 9 Gorffennaf 2024.
- Adolygiad o broses enwebiadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- Mae tîm Llety wedi'i sefydlu er mwyn canfod llety addas ar gyfer pob Dinesydd yn Wrecsam.
- Ailbwrpasu llety sy'n rhan o stoc tai'r Cyngor.

## Blaenoriaeth Strategol 6

Datblygu'r Asiantaeth Gosod Tai Leol i gynyddu cyflenwad ac amrywiaeth llety ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.

### Camau Gweithredu

- Hyrwyddo gwaith yr Asiantaeth Gosod Tai Leol i gynyddu nifer y landlordiaid yn y Fwrdeistref Sirol sy'n manteisio arno.
- Cynyddu'r nifer sy'n rhan o Gynllun Prydlesu'r Sector Rhentu Preifat Llywodraeth Cymru.

### Arweinydd

LR

### Canlyniad/Allbynnau

- Mae'r Tîm Gosod Tai Lleol wedi cytuno â'r Tîm Dewisiadau Tai a'r Tîm Dyraniadau Tai i gynnig dull siop un alwad.
- Mae Swyddog dynodedig yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru (LlC) ar y cynllun prydlesu eiddo rhent preifat, ac mae Rheolwr y Prosiect Lleoliadau Gwaith yn cynorthwyo i gynyddu'r nifer sy'n rhan o'r cynllun.
- Mae adolygiad o ffioedd Rheoli ar y gweill er mwyn cynyddu incwm.
- Cadw'n gyfarwydd â grantiau posibl sydd ar gael - Enghraifft - Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Dros Dro.

## Blaenoriaeth Strategol 7

Sicrhau bod gennym ymrwymiad cryf ar draws pob adran ac asiantaeth i ddull cydgysylltiedig o atal digartrefedd.

### Camau Gweithredu

- Sicrhau cynrychiolaeth berthnasol ar y grŵp llywio Digartrefedd.
- Gwneud gwaith i hyrwyddo cronfa ddata Dewis o asiantaethau cymorth.

### Arweinydd

SJ/LR

### Canlyniad/Allbynnau

- Gweithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Cynllunio Ardal o ran rhaglen Dim Drws Anghywir.
- Gweithio'n Strategol a Gweithredol wrth fod yn rhan o nifer o grwpiau amlasiantaeth.
- Caiff pob darparwr wybod bod angen iddynt fod yn mewnbynnu i gronfa ddata Dewis.

## Blaenoriaeth Strategol 8

Nodi'r sbardunau allweddol ar gyfer digartrefedd a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod atgyfeiriadau am gymorth yn amserol a di-dor lle bo'r angen.

### Camau Gweithredu

- Gweithio gyda phartneriaid i sicrhau bod diweddariadau'n dod i law o fewn terfynau amser a gytunwyd pan gaiff atgyfeiriadau eu gwneud.
- Gweithio i nodi a darparu cymorth priodol cyn gynted ag sy'n bosibl wrth ddyrannu tai Cyngor.
- Gweithio gyda phartneriaid i gynorthwyo i nodi pwyntiau allweddol, a ddylai sbarduno atgyfeiriadau am gymorth.

### Arweinydd

SJ

### Canlyniad/Allbynnau

- Cyflwyno porthol digidol i sicrhau trosglwyddo'n ddi-dor at wasanaethau cymorth.
- Hyrwyddo atgyfeiriadau cynnar i fodloni'r agenda ataliol.
- Bydd hyrwyddo'r Porth a sicrhau'r lefel ofynnol o ran staffio yn cynorthwyo â'r maes hwn.
- Mae dulliau cyfathrebu cryf â phartneriaid/cydweithwyr/darparwyr ar waith.

## Blaenoriaeth Strategol 9

Sicrhau nad oes angen i unrhyw unigolyn ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam gysgu allan.

### Camau Gweithredu

- Monitro ffigurau cysgu allan i nodi tueddiadau a phatrymau.
- Datblygu protocolau gweithio mewn partneriaeth ar gyfer gwasanaethau allgymorth.

### Arweinydd

LR/SJ

### Canlyniad/Allbynnau

- Caiff ffigurau cysgu allan eu monitro bob dydd, bydd gweithwyr Allgymorth Grymusol yn ymweld â phob man poeth Cysgu Allan ac ardaloedd newydd sy’n peri pryder.
- Nodwyd bod angen 1 gweithiwr Allgymorth Grymusol arall i gefnogi cleientiaid mewn ffordd ataliol er mwyn helpu i gefnogi cleientiaid gydag anghenion cymhleth a allai arwain at golli tenantiaeth.
- Cynhelir cyfarfod darparwyr bob pythefnos er mwyn bod â dull amlasiantaeth cydweithredol i helpu a chefnogi’r bobl fwyaf diamddiffyn.
- Dylai cyflwyno Categori 11 Llywodraeth Cymru olygu nad oes rhaid i unrhyw un gysgu allan.

## Blaenoriaeth Strategol 10

Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu gwasanaethau i ddarparu’r sgiliau angenrheidiol er mwyn rheoli cartref a bod yn ariannol annibynnol.

### Camau Gweithredu

- Creu cysylltiadau gyda chydweithwyr Cymunedau am Waith i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant a gwirfoddoli i’r rhai mewn llety â chymorth.

### Arweinydd

LR/SJ

### Canlyniad/Allbynnau

- Asiantaethau partner yn hyrwyddo cyfleoedd am swyddi a gwirfoddoli. Caiff byrddau gwaith eu gosod ym mhob lleoliad llety dros dro a bydd Swyddogion Cymorth Tai yn cynghori a chefnogi unigolion i ymgysylltu pan fo’r amser yn iawn.
- Mae preswylwyr wedi llwyddo i gael cyfleoedd am waith / gwirfoddoli.
- Gweithio mewn partneriaeth â Swyddogion Cynhwysiant Ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.